


**PECYN
GWEITHGAREDDAU
CYFIEITHU
CYMDEITHAS
CYFIEITHWYR
CYMRU**

	TUDALEN
<u>GWERS 1 – PAM FOD CYFIEITHU’N BWYSIG?</u>	3
<u>GWERS 2 – BETH YDY CYFIEITHU?</u>	12
<u>GWERS 3 – MEDDWL YN GREADIGOL WRTH GYFIEITHU AC IS-DEITLO</u>	16
<u>GWERS 4 – CYFIEITHU RHAGLEN BLANT</u>	19
<u>GWERS 5 – HELFA WYBODAETH CYMDEITHAS CYFIEITHWYR CYMRU</u>	26

GWERS 1 – PAM FOD CYFIEITHU’N BWYSIG?

TASG SBARDUN

Beth fyddai eich ymateb pe byddai eich ysgol yn ysgrifennu negeseuon, llythyrau ac arwyddion yn uniaith Saesneg?



NOD Y WERS: Dysgu pam fod cyfieithu yn bwysig



Cylchwch y sgiliau sydd eu hangen ar gyfieithwyr.



Technoleg	Cadw at derfyn amser	Rhifedd
Iaith	Canu	Datrys problemau
Llafar	Darllen	Gwranddo
Creadigrwydd	Ysgrifennu	Trefnus
Ymchwil	Canolbwyntio	Cryfder corfforol

PAM FOD CYFIEITHU I'R GYMRAEG YN BWYSIG?

Mae cyfieithu yn gwneud yn siŵr bod gwybodaeth (fel llythyrau, gwefannau, arwyddion) ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, fel bod pawb yn deall. 👍

Heb gyfieithu, byddai pobl sy'n siarad Cymraeg yn cael llai o gyfleoedd a gwasanaethau. 😞

Mae cyfieithu'n bwysig i wneud yn siŵr nad ydy'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. ⚖️

Mae cyfieithu yn hanfodol i wneud yn siŵr bod sefydliadau'n cadw at safonau'r Gymraeg. 🇬🇧

BETH YW SAFONAU'R GYMRAEG?

Rheolau sy'n mynnu bod y Gymraeg yn cael ei pharchu.



Comisiynydd y Gymraeg
Efa Gruffudd

Mae'r Safonau yn gwneud yn siŵr fod pobl yn gallu defnyddio'r Gymraeg mewn gwasanaethau cyhoeddus e.e. y cyngor, ysbyty, ysgolion

Y Comisiynydd sy'n gosod y Safonau ac yn gwirio bod y sefydliadau yn dilyn y rheolau hyn.

ENGHREIFFTIAU O SAFONAU:

- E-byst** – rhaid gallu anfon a derbyn negeseuon yn y Gymraeg.
- Galwadau ffôn** – rhaid i bobl allu siarad Cymraeg pan yn ffonio.
- Ffurflenni** – rhaid bod ar gael yn y Gymraeg.
- Arwyddion** – rhaid cynnwys y Gymraeg (yn aml yn gyntaf neu'n gyfartal).
- Cyfryngau cymdeithasol** – rhaid postio yn y Gymraeg, nid dim ond yn Saesneg.
- Apiau neu systemau ar-lein** – rhaid iddynt fod ar gael yn y Gymraeg
- Hyfforddi staff** – rhaid cefnogi staff i allu defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith.

CWESTIYNAU

1. Pwy yw Comisiynydd y Gymraeg? Ticiwch 1

- ☐ Efa Gruffudd
- ☐ Eifion Gruffudd
- ☐ Gruff Rhys
- ☐ Efa Rhys

2. Beth ydy gwaith Comisiynydd y Gymraeg? Ticiwch 2

- ☐ Rheoli Cymru
- ☐ Gwneud yn siŵr bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ☐ Gosod Safonau'r Gymraeg
- ☐ Gwirio bod sefydliadau yn dilyn y Safonau

3. Ticiwch i ddangos pa ddatganiadau sy'n gywir a pha rai sy'n anghywir.

	CYWIR	ANGHYWIR
Heb gyfieithu, byddai pobl sy'n siarad Cymraeg yn cael mwy o gyfleoedd a gwasanaethau		
Safonau'r Gymraeg yw rheolau sy'n mynnu bod y Gymraeg yn cael ei pharchu.		
Mae'r Safonau yn gwneud yn siŵr fod pobl yn gallu defnyddio'r Gymraeg gyda chwmnïau preifat		
Mae'n rhaid i ffurflenni mewn gwasanaethau cyhoeddus fod yn y Gymraeg		

4. Tanlinellwch un gair yn y blwch isod sy'n disgrifio bod cyfieithu yn bwysig:

Mae cyfieithu yn hanfodol i wneud yn siŵr bod sefydliadau'n cadw at safonau'r Gymraeg.

5. Tynnwch 4 llinell i gysylltu'r Safonau isod:

Galwadau ffôn

Rhaid postio yn y Gymraeg, nid dim ond yn Saesneg.

Cyfryngau cymdeithasol

Rhaid gallu anfon a derbyn negeseuon yn y Gymraeg.

Hyfforddi staff

Rhaid i bobl allu siarad Cymraeg pan yn ffonio.

E-byst

Rhaid cefnogi staff i allu defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith.



Dadansoddwch y model o e-bost perswadiol. Beth yw'r MPLI?

Model o e-bost perswadiol

MPLI

Cyfeiriad: prifathroysgol@hwb.cymru

Pwnc: Cais i drefnu trip i Stadiwm Principality i weld gêm rygbi

Annwyl Brifathro,

Rwy'n ysgrifennu atoch i ofyn a fydddech cystal â threfnu trip i Stadiwm Principality i weld gêm rygbi. Yn fy marn i, byddai hwn yn brofiad cyffrous, cofiadwy ac addysgol i ddisgyblion Blwyddyn 8 – profiad a fyddai'n aros yn y cof am flynyddoedd i ddod.

Yn gyntaf, byddai'r daith yn rhoi cyfle gwych i ni weld ein camp genedlaethol yn cael ei chwarae ar y lefel uchaf. Oni fyddai'n anhygoel cael blas ar yr awyrgylch egnïol a chefnogi'r tîm yn fyw? Byddai'n siŵr o roi tân yn ein boliau a'n gwneud yn falch o'n gwlad.

Yn ail, credaf y byddai'r daith yn ein hysbrydoli i gymryd rhan mewn chwaraeon ac i fyw bywyd iach. Ar ben hynny, byddai'r daith yn gyfle arbennig i ddysgu, i fwynhau a chryfhau cyfeillgarwch.

Yn fy marn i, byddai'r daith hon yn brofiad gwych – yn wir, yn brofiad ysbrydoledig. Yn brofiad bythgofiadwy.

Felly, a fydddech cystal â rhoi ystyriaeth ddifrifol i'r syniad hwn? Rwy'n credu'n gryf y byddai taith o'r fath yn uchafbwynt y flwyddyn i lawer o ddisgyblion.

Diolch yn fawr am gymryd yr amser i ddarllen fy e-bost. Edrychaf ymlaen yn eiddgar at glywed eich ymateb.

Yn gywir,
Huw Jones



Paratowch ar gyfer ysgrifennu eich e-bost.



Pam dylid ysgrifennu posteri/ arwyddion/ negeseuon Facebook yn ddwyieithog?

- 1.
- 2.
- 3.
- 4.
- 5.
- 6.
- 7.
- 8.

Geirfa mynegi barn

Idiomau

- Cael llond bol
- Byth a beunydd
- Heb os nac oni bai
- Cenedl heb iaith yw cenedl heb galon
- Gorau po gynta
- Mae'n hen bryd
- Does dim dwywaith

Ansoddeiriau

[illegible]

[illegible]

Arfarnu Cyfoedion

Geirfa Mynegi Barn			
Idiomau			
Cwestiynau			
Ansoddeiriau			
Ailadrodd			
Rhestru			
Iaith Ffurfiol			
Trefnus, e.e. Yn gyntaf, Yn ail			
Atalnodi			
Paragraffu			


Sylwadau Athro

GWERS 2 – BETH YDY CYFIEITHU?

TASG SBARDUN

Beth ydy'r geiriau yma yn y Gymraeg?



NOD Y WERS: Dysgu beth ydy cyfieithu



Cyfieithwch y geiriau a llenwi'r bylchau.

MATCH

Daeth y _____ i ben gan fod Nain yn twyllo!

I gynnau tân rhaid cael _____.

Dydw i ddim yn hoffi gwisgo sanau _____.

LIGHT

Mae _____'r car yn fy nallu.

Rwyt ti'n _____ fel pluen.

Pwy sydd wedi _____'r tân?

CASE

Roedd yr _____ llys yn y papur newydd.

Cadwa flanced yn y car _____ argyfwng.

Ble mae _____ dy sbectol?

The exam was a piece of cake.

Roedd yr arholiad yn ddarn o deisen.

He said this out of the blue.

Dywedodd hyn allan o'r glas.

Brake a leg!


Torra dy goes!


BLE MAE'R GWALLAU?















Meddylwch am deitlau Cymraeg i'r albyms.








**DIM
CYFIEITHU
LLYTHRENNOL!**



MY EVERYTHING 2014




GWERS 3 – MEDDWL YN GREADIGOL WRTH GYFIEITHU AC IS-DEITLO

TASG SBARDUN

Slogan pa siop ydy hwn? Sut fydddech chi'n ei gyfieithu i'r Gymraeg?

EVERY
LITTLE
HELPS



NOD Y WERS: Meddwl yn greadigol wrth gyfieithu

Dysgu beth yw is-deitlo



Sut mae gwneud y slogans yn fwy apelgar?









Beth am greu isdeitlau Cymraeg ar gyfer hysbyseb McDonald's?

To the people who
reach into a carton of
warm, crispy, golden,
perfectly salted
McDonald's world
famous fries and
return with just one,
who are you and how
do you do that?

Geiriau dieithr a'u hystyr





Gwylwch hysbyseb o'r ddrama boblogaidd *Waterloo Road* a phrawfddarllen yr isdeitlau sydd wedi'u creu gan Google Translate.

WATERLOO ROAD	GOOGLE TRANSLATE	IS-DEITLO CYWIR
New term, new era.	Term newydd, oes newydd.	
Where did you find her, sparring with Tyson Fury?	Ble wnaethoch chi ei chael hi, yn ymladd gyda Tyson Fury?	
We need to call the police.	Rhaid i ni alw'r heddlu.	
Hello, trouble!	Helo, problem!	
I am going to teach you all you need to know about coming of age.	Rydw i'n mynd i ddysgu popeth sydd angen i chi ei wybod am ddod i oed.	
You have my complete support and complete trust.	Mae gen ti fy nghymorth yn llwyr a fy nghredadwyedd yn llwyr.	
There is something that I haven't told you.	Mae rhywbeth nad wyf wedi dweud wrthyf.	
Are you ever going to forgive me?	Wyt ti byth am fy maddau?	



GWERS 4 – CYFIEITHU RHAGLEN BLANT

TASG SBARDUN

Allwch chi gyfieithu'r ymadroddion hyn i'r Gymraeg?

Beth sy'n rhaid i chi ystyried wrth wneud y dasg?

**Come away from the
house!**

**Oh no! What's Dad
done now?**

NOD Y WERS: Cyfieithu rhaglen blant i'r Gymraeg gan ddefnyddio iaith addas



Rhowch drefn ar yr ymadroddion sydd ar y bwrdd gwyn gan ystyried a ydynt yn iaith ffurfiol neu'n iaith lafar.

IAITH FFURFIOL	IAITH LAFAR



Cysylltwch yr ymadroddion â'r un ystyr yn nhafodiaith y de a'r gogledd.

De

Dere

Sa i

Ma 'da fi

Gweud

Mas

Shwt y'ch chi?

Gogledd

Mae gen i

Tyrd

Allan


Dweud

Dydw i ddim

Sut ydach chi?



Gwylwch **Fireman Sam™** | **Mother's Helper** | **Series 6**. Rhannwch i grwpiau er mwyn cyfieithu'r golygfeydd i'r Gymraeg.



Golygfa 1	Saesneg	Cymraeg
Mike (Tafodiaith y Gogledd)	I know it's important that you go to this nursing course and learn how to do all those new fangle medical things but how am I going to manage all the extra housework?	
Helen (Tafodiaith y Gogledd)	You don't have that much to do, Mike. I'm only away for two days.	
Mike	I know but I have work to do too. What if somebody needs their roof repaired? Or their leaky tap mended? I can't do everything.	
Dilys (Tafodiaith y De)	Honestly Mike, I always have to work and do all the housework by myself.	
Mike	Yes Dilys... but...	
Helen	What about Norman? Doesn't he help with the chores?	
Dilys	Are you saying that Mandy actually helps you with the housework, Helen?	
Helen	That's exactly what I'm saying, Dilys. And Norman could help you too.	

Golygfa 2	Saesneg	Cymraeg
Elvis (Tafodiaith y De)	A wet mop floor, I've got a wet mop floor, and baby don't you step on my wet mop floor! Oh Penny! Stop! The floor's wet!	
Penny (Tafodiaith y Gogledd)	Sorry! You've rather backed yourself into a corner there, haven't you Elvis?	
Elvis	I'll be okay, Penny.	
Penny	Are you alright down there?	
Elvis	I think so!	
Sam (Tafodiaith y De)	Nothing broken anyway...	

Elvis	Except my poor mop!	
-------	---------------------	--

Golygfa 3	Saesneg	Cymraeg
Dilys	Norman? Norman? Norman Price, I have a job for you.	
Bronwen (Tafodiaith y De)	Www hello, Norman. Where are you off to in such a hurry this morning?	
Dilys	A-ha! There you are! Oh thanks, Bronwen. He nearly got away.	

Golygfa 4	Saesneg	Cymraeg
Helen	Okay, Mike. Here's a list of the jobs you need to remember to do. Are you sure you're going to be alright?	
Mandy	Don't worry, Mum. I'll look after Dad.	
Mike	Ha ha! Very funny... What? Helen? This can't be right!	
Mandy	Bye, Mum... have fun on your course.	


Golygfa 5	Saesneg	Cymraeg
Dilys	There are a lot of jobs in this house, Norman Price. You can't expect me to do everything. You can pick up your dirty clothes and put them in the laundry basket for a start.	
Norman	But... I'm not even sure what the laundry basket looks like.	
Dilys	It's in the bathroom, under the sink.	
Norman	I've never noticed it.	
Dilys	This, Norman Price, is the laundry basket.	
Norman	Oh but... how does it open?	
Dilys	Like this!	
Norman	Oh... but how do you put clothes into it?	
Dilys	I think you can work that out and I expect you to take the basket	

	down to the cellar and put a wash on today.	
Norman	But... Mam!	

Golygfa 6	Saesneg	Cymraeg
Mandy	I've tidied my room, made my bed and washed the dishes, which means my jobs are done.	
Mike	Fancy doing a little bit of ironing then, sweetheart?	
Mandy	No, thanks. I'm meeting up with Norman to go skateboarding.	

Golygfa 7	Saesneg	Cymraeg
Dilys	Are you alright down there, Norman? There are a lot of dirty clothes. I think that you will have to put on two washes.	
Norman	No, I won't! There we go!	
Norman	All done! See you later, Mam! I'm off to meet Mandy.	
Dilys	But I want you be back in time to put the second wash on. Norman!	
Norman	Morning, Elvis!	
Mandy	Lovely day!	

Golygfa 8	Saesneg	Cymraeg
Elvis	Morning, Dilys! I'm looking for a mop.	
Dilys	Shh... listen, Elvis! Can you hear that?	
Elvis	Ww yes. It sounds kind of like a waterfall or maybe...	
Dilys	The washing machine.	



Golygfa 9	Saesneg	Cymraeg
Mike	I wish I was a nurse then I could go away on a training course and I wouldn't have to do any ironing. Yes, Doctor, you're right. This shirt has a serious case of	

	button-ites. It's going to be a very fiddley operation.	
	Nurse Flood, emergency room.	
Dilys	Helen? What's happened to your voice? Is Mike there?	
Mike	Ha ha! No, it's me!	
Dilys	Mike! Come quickly. Norman has broken the washing machine.	
Mike	Say no more, Dilys! I'm on my way. I knew I'd have work to do.	

Golygfa 10	Saesneg	Cymraeg
Penny	Ymm, Elvis! What are you doing?	
Elvis	Just trying out my new mop, Penny. And I'll have you know that I've decided to walk forwards so there won't be any more accidents.	
Penny	No... but there will be footprints!	
Elvis	Yy? Why does mopping have to be so complicated?	

Golygfa 11	Saesneg	Cymraeg
Mike	I will have to order a new belt for your washing machine, Dilys. You must have overloaded it.	
Dilys	It wasn't me. It was Norman! Now you know why I never ask him to do anything!	
Mike	See you, Dilys!	
Mike	Hello!	
Norman	Hi, Mike!	
Dilys	Norman?	
Norman	Oh... what now? I did the washing!	
Dilys	No! You broke the washing machine! So now, you need to ask Mike very nicely if you can wash our dirty clothes in his machine.	
Norman/ Mike	But.... Oo!	
Mandy	Have fun, Norman! I wonder if Sarah and James want to go skateboarding.	

Golygfa 12	Saesneg	Cymraeg
Mike	You know, Norman. I don't much like housework either. But if a job's worth doing, it's worth doing properly. Oh no!	
Norman	Call Fireman Sam!	

Golygfa 13	Saesneg	Cymraeg
Prif Swyddog Steele (Tafodiaith y De)	Fire at the Flood's house.	
Elvis	Oh no! Why do emergencies always happen when you don't want them to?	
Prif Swyddog Steele	Fire at the Flood's house, Sam. Penny, take Venus as well.	
Sam	Come away from the house, Mike. We'll take it from here. Elvis... switch the electricity off.	
Elvis	Okay, Sam.	



Golygfa 14	Saesneg	Cymraeg
Mandy	Oh no! What's Norman done now?	
Norman	It wasn't me this time.	
Mike	It's my fault... I went out and left the iron on.	
Sam	Well, we could all afford to be more careful whichever job we might be doing.	
Elvis	Yes. Even a mop can be very dangerous.	
Sam	Elvis is right!	



GWERS 5 – HELFA WYBODAETH CYMDEITHAS CYFIEITHWYR CYMRU

Cerwch ar wefan Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru i ddod o hyd i'r atebion.

1. Sawl Cymdeithas broffesiynol sydd yno ar gyfer cyfieithwyr Cymraeg i/o'r Saesneg? (1)
2. Llenwch y bylchau: Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw'r corff cenedlaethol sy'n _____, _____ a _____ cyfieithu proffesiynol. (3)
3. Enwch 3 chategori aelodaeth y Gymdeithas. (3)
4. Beth ydy cyfeiriad Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru? (1)
5. Pa flwyddyn sefydlwyd y Gymdeithas? (1)
6. Sawl cyfieithydd ddaeth at ei gilydd i sefydlu'r Gymdeithas? (1)
7. Beth ddigwyddodd yn 1989? (1)
8. Pwy sy'n ariannu'r Gymdeithas yn rhannol? (1)
9. Pa ddwy wobwr mae'r Gymdeithas yn eu cyflwyno bob blwyddyn? (2)
10. Beth oedd cyfraniad Hedley Gibbard i gyfieithu? (1)
11. Ble cynhelir arholiadau'r Gymdeithas? (3)
12. Pa gyrsiau cyfieithu ôl radd mae Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol y Drindod Dewi Sant yn eu cynnig? (2)

—
20